Ydych chi'n derbyn y cwcis?

Rydyn ni'n defnyddio cwcis er mwyn rhoi'r profiad gorau i chi ar y wefan. Ydych chi'n derbyn yr holl gwcis?

Ydw

Nac ydw - mynd i'r gosodiadau



# Cymraeg: 'Paradocs' y Cyfrifiad yn dangos 'darlun cymhleth'

3 awr yn ôl




Mae cynnydd o 10,000 wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n cael addysg Gymraeg ers 2011

**Bethan Lewis**

Gohebydd Addysg a Theulu BBC Cymru

**Rhaid dangos gofal wrth ddehongli "paradocs" y gostyngiad yn nifer y plant sy'n medru'r Gymraeg, yn ôl arbenigwr iaith.**

Dangosodd canlyniadau Cyfrifiad 2021 ostyngiad o 5.7 pwynt canran yng nghyfran y plant tair i 15 sy'n siarad Cymraeg ers 2011.

Ar yr un pryd, mae data Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd o 10,000 yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysg trwy gyfrwng yr iaith dros gyfnod tebyg.

Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ofyn iddyn nhw ystyried pam fod **gwahanol arolygon am yr iaith yn arwain at wahanol ganlyniadau**.

Yn ôl Dr Rhian Hodges, Uwch-ddarlithydd Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Bangor, mae angen gofal wrth ddehongli'r data gan ychwanegu fod y darlun yn un cymhleth.




Mae disgyblion Ysgol Panteg ym Mhont-y-pŵl yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Bwriad uned drochi iaith newydd ym Mhont-y-pŵl - y cyntaf yn Nhorfaen - yw dangos ei bod hi byth yn rhy hwyr i blant ddechrau'u taith trwy addysg Gymraeg.

Carreg Lam yw enw'r uned i blant 7-11 fydd, i ddechrau, â chartref yn Ysgol Panteg, mewn ardal welodd ostyngiad sylweddol yn nifer y plant oedran ysgol sy'n medru'r iaith.

Roedd hynny'n "siomedig" meddai'r pennaeth Dr Matthew Dicken, sydd hefyd yn gweld anghysondeb rhwng canlyniadau'r Cyfrifiad, a chynnydd yn y

diddordeb mewn addysg Gymraeg.



Mae Dr Matthew Dicken yn dyflau fod rhai rhieni wedi tan-adrodd sgiliau ieithyddol eu plant

Mae'r uned drochi yn atgyfnerthu statws yr iaith, meddai.

"Y syniad yw iddyn nhw gael rhyw 12 wythnos yma yn cael trochi dwys cyn eu bod nhw wedyn yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu gyrfa ysgol," meddai Dr Dicken.

"Mae rhieni fel arfer yn meddwl os nad oedden nhw wedi danfon eu plant i ddosbarth meithrin trwy gyfrwng y Gymraeg neu i ddosbarth derbyn wedyn mae e'n rhy hwyr.

"Y realiti yw rydyn ni'n trio dangos mae 'na fwy o ffyrdd a rhoi cyfle i bawb."

- **Cyfrifiad: Y nifer sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng**
- **Gostyngiad siaradwyr yn siom i'r llywodraeth**
- **Y Gymraeg: 'Angen rhoi'r Cyfrifiad mewn cyd-destun'**

Yn enedigol o'r ardal mae'n dweud iddo fod yn yr ysgol gyda nifer o'r rhieni, ond nad ydynt â hyder yn eu gallu i siarad Cymraeg.

Yn adrodd dros eu plant wrth wneud y Cyfrifiad - a hynny yn ystod cyfnod Covid pan oedd disgyblion adref ac ysgolion ar gau - mae'n dyfalu bod rhai wedi tan-adrodd sgiliau ieithyddol.

Mae cyfanswm y plant sy'n siarad Cymraeg yn ôl y Cyfrifiad yn sylweddol uwch na nifer y plant sydd yn cael addysg Gymraeg iaith gyntaf.

Roedd 146,600 o siaradwyr Cymraeg tair i 15 oed yng Nghyfrifiad 2021 - 5.7 pwynt canran yn is na ffigwr 2011.

Yn ôl data Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 roedd 95,120 o blant oed meithrin i Flwyddyn 11 yn cael addysg Gymraeg fel iaith gyntaf, a hynny wedi cynyddu o 85,320 yn 2011/12.



"Ar yr olwg gynta" mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn siom i nifer, ond mae angen gofal wrth ddehongli, meddai Dr Rhian Hodges, Uwch-ddarlithydd Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Bangor.

"Oes 'na wahaniaeth fan hyn rhwng sgiliau gwirioneddol a chanfyddiadau?" meddai.

"Mae'r Cyfrifiad yn werthfawr i roi rhyw fath o *snapshot* i ni o beth sy'n digwydd ond ar yr un pryd mae'n bwysig i edrych ar elfennau fel hyder, rhuglder a theimladau o ddefnydd iaith ac o ran perthyn i'r Gymraeg hefyd.

"Mae'n ddarlun cymhleth," ychwanegodd.

Pan gafodd canlyniadau'r Cyfrifiad eu cyhoeddi dywedodd Plaid Cymru ei fod yn dangos bod polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg Gymraeg yn methu.

Dywedodd Llywodraeth Cymru nad addysg Gymraeg gorfodol i bawb oedd yr ateb.





Mae Jano, 16, ac Osian, 17, yn credu bod 'na fwy o Saesneg ymhlith y plant iau ond mae llawer dal yn siarad Cymraeg a hynny'n "bositif" yn ôl Jano.

Mae Osian yn croesawu "mwy o alw am addysg trwy'r iaith Gymraeg".




"Ma' angen mentro fan hyn yn do's e?" meddai Gareth Evans

Mae'r ysgol wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion er bod y Cyfrifiad yn awgrymu bod Ceredigion hefyd â llai o blant ysgol sy'n siarad Cymraeg erbyn hyn.

"Ry'n ni wedi sefydlu ers 2016 fel ysgol a wedi cynyddu mewn niferoedd o 750 i dros 900," meddai'r pennaeth dros dro Gareth Evans.

"Ma' angen mentro fan hyn yn do's e?

"Mae 'na gynllun Cymraeg mewn addysg o fewn awdurdod addysg Ceredigion gyda'r uchelgais o gael pob plentyn yn cael addysg trochi yn y Gymraeg hyd at saith blwydd oed erbyn 2032.

"Y gobaith yw wrth i'r plant yna dyfu byddan nhw yn anfon eu plant i addysg Gymraeg a byddwn ni'n gweld yr iaith yn ffynnu."

Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddan nhw'n archwilio data'r cyfrifiad yn ofalus a'i fod yn "un o lawer o ddarnau pwysig o ddata a ddefnyddir i ystyried pa newidiadau sydd angen eu gwneud yn y dyfodol i sicrhau bod ein hiaith yn ffynnu".

Ychwanegodd llefarydd bod y prif weinidog wedi ysgrifennu at y Swyddfa Ystadegau Gwladol "i ofyn iddynt archwilio sut a pham mae gwahanol arolygon am y Gymraeg yn cynhyrchu canlyniadau gwahanol".

## Straeon perthnasol



**Angen 'esboniad' am gwymp y Gymraeg yn y Cyfrifiad**

24 Rhagfyr 2022








## Cyfrifiad: Y nifer sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng

6 Rhagfyr 2022



## Y Gymraeg: 'Angen rhoi'r Cyfrifiad mewn cyd-destun'

7 Rhagfyr 2022

## Pynciau Cysylltiedig

Addysg     Yr iaith Gymraeg

## Prif Straeon

Cymraeg: 'Darlun cymhleth' ym 'mharadocs' y Cyfrifiad

3 awr yn ôl

Cau ysgolion eto wrth ymestyn rhybudd tywydd

8 munud yn ôl

Cyfnod 'caletaf' yn ariannol mewn 20 mlynedd

2 awr yn ôl

## Cylchgrawn



Oriel: Eira dros rannau o Gymru



Cofio storm fawr Aberystwyth, 1938



Gwreiddiau'r Cymry: 'Deuoliaeth o dristwch a balchder'



Ateb y Galw: Casia Wiliam




Kubrick, yr archdderwydd a'r arlunydd o Sir Aberteifi



Cwis: Gareth Bale




Beth yw sefyllfa'r iaith Fanaweg ar Ynys Manaw?



Gwersi Cernyweg yn Sir Benfro



Y byd yn gwylio Wrecsam... yn Gymraeg!

## Gwasanaethau BBC Cymru Fyw

Cysylltwch â ni

Tabledi a ffonau symudol

Hefyd yn Gymraeg

Hafan
Newyddion
Sport
Tywydd
iPlayer
Sounds
CBBC
CBeebies
Food
Bitesize
Celfyddydau
Taster
Lleol
Three

Telerau Defnyddio | Ynglŷn â'r BBC | Preifatrwydd | Cwcis | Cymorth Hygyrchedd | Clo i rieni

Cysylltu â’r BBC | Gwneud cwyn golygyddol | Get Personalised Newsletters

© 2023 BBC. Nid yw'r BBC yn gyfrifol am gynnwys safleoedd allanol. **Read about our approach to external linking.**